

## Polisi Datgeliadau Gwarchodedig y BBC – ‘Chwythu’r Chwiban’

### Cyflwyniad

Sefydliad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw'r BBC ac mae ganddo enw da drwy'r byd i gyd am weithredu'n annibynnol ac yn onest. Mae'r BBC yn gwbl ymrwymedig i gynnal y safonau uchaf o ran moeseg, gonestrwydd ac atebolrwydd a bod yn hollol agored. Mae'n cydnabod bod gan bob un o'i weithwyr ran bwysig i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Mae'n bosibl y bydd pob un ohonom, rywbryd neu'i gilydd, yn poeni am rywbeth sy'n digwydd yn y gwaith. Fel arfer, mae'n ddigon hawdd rhoi sylw i bryder o'r fath. Ond os yw'r pryder yn ymwneud â thorri'r gyfraith, camymddygiad difrifol gan rywun arall, iechyd a diogelwch, camymddygiad ariannol neu fath arall o gamymddygiad neu ymddygiad anonest sy'n effeithio ar bobl eraill, mae'n anodd gwybod beth i'w wneud. Nod y polisi hwn yw annog pawb, yn fewnol neu'r tu allan i'r BBC, i roi gwybod os ydynt yn amau bod rhywun yn gwneud rhywbeth o'i le, a rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â sut i fynegi pryder o'r fath.

### Sut y gall Polisi Datgeliadau Gwarchodedig y BBC eich helpu chi

Os oes gennych bryder gwirioneddol ynglŷn â chamymddygiad yn y gwaith, a'ch bod yn credu y dylid ei ddatgelu er lles y cyhoedd, mae'r Polisi Datgeliadau Gwarchodedig yn eich galluogi i dynnu sylw ato mewn ffordd briodol ac effeithiol. Mae'n fecanwaith cyfrinachol er mwyn i chi allu tynnu sylw at unrhyw bryder sydd gennych am gamymddygiad yn y gwaith. Cynlluniwyd y polisi er mwyn eich diogelu, os ydych yn mynegi pryder gwirioneddol, rhag cael eich rhoi dan anfantis neu gael eich diswyddo'n annheg, yn unol â *Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998* (y cyfeirir ati fel arfer fel 'Deddf Chwythu'r Chwiban').

Er hyn, **ni** ddylai'r polisi gael ei weld fel sianel i godi materion yn ymwneud â'ch amgylchiadau personol chi neu delerau ac amodau eich cyflogaeth. Yn yr achosion hynny dylech gyfeirio at *Bolisi Cwynion y BBC* neu *Bolisi'r BBC ar Fwlio ac Aflonyddu*.

Gellir cyfeirio pryder yn ymwneud ag achosion posibl o dorri Polisi Golygyddol y BBC at David Jordan, y Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol.

### Pwy all ddefnyddio'r Polisi Datgeliadau Gwarchodedig?

Mae'r BBC yn annog diwylliant o fod yn agored gyda phob gweithiwr a phob unigolyn y mae'n dod i gysylltiad ag ef. Mae'r polisi a amlinellir yn y ddogfen hon yn rhoi canllawiau i holl weithwyr cyflogedig y BBC ym mhob rhan o'r byd a hefyd i unigolion sy'n gweithio o fewn y BBC. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr achlysurol, staff dros dro sy'n gweithio i asiantaeth, gweithwyr llawrydd, hyfforddeion, pobl sy'n gweithio gartref a chontractwyr sy'n teimlo bod angen iddynt godi materion penodol sy'n ymwneud â'r BBC, yn gyfrinachol.

### Beth yw Chwythu'r Chwiban?

Daeth Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 i rym ar 1 Gorffennaf 1999. Mae'r Ddeddf hon yn gosod fframwaith i hybu datgelu pryder ynglŷn â'r materion a ganlyn mewn modd cyfrifol a gwarchoddedig:

- bod trosedd wedi'i chyflawni, yn cael ei chyflawni neu'n debygol o gael ei chyflawni;
- bod rhywun wedi methu, yn methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a orfodwyd arno;
- bod camweinyddu cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd;
- bod iechyd a diogelwch unigolyn wedi bod mewn perygl, mewn perygl ar hyn o bryd neu'n debygol o fod mewn perygl;
- bod yr amgylchedd wedi cael ei ddifrodi, yn cael ei ddifrodi neu'n debygol o gael ei ddifrodi;
- bod gwybodaeth sy'n tueddu i ddangos unrhyw fater a fyddai'n dod o fewn y materion uchod wedi cael ei chuddio, yn cael ei chuddio neu'n debygol o gael ei chuddio.

Os oes gennych bryder gwirioneddol ynglŷn ag unrhyw un o'r uchod, a'ch bod yn credu y dylech ddatgelu'r pryder er lles y cyhoedd, dylech roi gwybod amdano yn unol â'r polisi hwn.

**Fel y nodwyd uchod ni ddylid defnyddio'r polisi hwn yn lle Polisi Cwynion y BBC na Pholisi'r BBC ar Fwlio ac Aflonyddu.**

Ni ddylai'r polisi hwn ddisodli rôl yr undeb llafur cydnabyddedig ychwaith<sup>1</sup>. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwch yn teimlo bod arnoch eisiau gofyn i undeb llafur eich helpu i drafod eich pryder.

Cymerir camau disgyblu yn erbyn unrhyw un sy'n camddefnyddio gweithdrefnau'r polisi hwn, er enghraifft drwy ddatgan pryder yn faleisus er ei fod yn gwybod nad yw'r pryder hwnnw'n wir.

### **Sicrwydd y BBC i chi:**

#### **Eich diogelwch**

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Uwch Dîm Arwain wedi ymrwmo i egwyddorion y Polisi Chwythu'r Chwiban. Gallwn eich sicrhau na fydd eich swydd mewn perygl os byddwch yn tynnu sylw at bryder gwirioneddol.

Nid yw'r BBC wrth gwrs yn rhoi'r sicrwydd hwn i rywun sy'n gweithredu'n amhriodol ac yn codi mater y maent yn gwybod nad yw'n wir.

#### **Cyfrinachedd**

Ni fydd y BBC yn gadael i unrhyw un sy'n mynegi pryder gwirioneddol gael ei fictimeiddio mewn unrhyw ffordd a chymerir camau disgyblu yn erbyn unrhyw un sy'n gyfrifol am wneud hynny.

Efallai y byddwch yn penderfynu eich bod eisiau mynegi eich pryder yn gyfrinachol. Gallwch wneud hynny drwy ofyn i ni beidio â rhannu gwybodaeth amdanoch, felly ni fydd eich manylion yn cael eu datgelu heb eich caniatâd. Os bydd sefyllfa'n codi lle nad yw'n bosibl i ni ymdrin â'ch pryder heb ddatgelu gwybodaeth amdanoch, er

---

<sup>1</sup> Yr undebau llafur sy'n cael eu cydnabod gan y BBC yw: BECTU – Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograff a Theatr; NUJ – Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr; Unite – Adran Amicus. Mae'r BBC hefyd yn cydnabod categorïau penodol: MU – Undeb y Cerddorion; EQUITY – Undeb yr Actorion.

enghraifft oherwydd bod angen eich tystiolaeth yn y llys, byddwch yn cael eich cynnwys mewn trafodaeth i benderfynu beth yw'r ffordd orau o symud ymlaen.

Er ei bod yn bosibl i chi fynegi pryder yn ddiennw, gall rhoi eich manylion cyswllt ei gwneud yn bosibl i ni gynnal ymchwil manylach i'r pryderon rydych yn eu mynegi.

## **Sut i fynegi pryder**

### **Cam 1: Rheolaeth Llinell Fewnol**

Os oes gennych bryder am gamymddygiad, gobeithio y byddwch yn teimlo eich bod yn gallu trafod y mater yn y lle cyntaf gyda'ch rheolwr llinell, rheolwr uwch neu Bartner Busnes Adnoddau Dynol. Gallwch wneud hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig – os ydych yn mynegi pryder yn ysgrifenedig rhowch fanylion er mwyn i ni allu cysylltu â chi.

Ceisiwch ddefnyddio'r cyfle hwn i roi manylion clir ynglŷn â'r hyn sy'n peri pryder i chi. Mae hwn hefyd yn gyfle i chi ddweud sut y byddech yn hoffi i ni ymchwilio i'ch pryder, a nodi a oes gennych unrhyw fudd uniongyrchol neu bersonol yn y mater.

### **Cam 2: Cysylltiadau Mewnol Eraill**

Os ydych yn teimlo nad ydych yn gallu trafod eich pryder ag un o'ch rheolwyr llinell uniongyrchol, am ba reswm bynnag, gallwch gysylltu yn gyfrinachol ag un o'r uwch aelodau hyn o staff y BBC, a fydd yn gweithredu'n annibynnol er mwyn rhoi ymateb diduedd, agored a theg wrth ymdrin â datgeliadau o'r fath. Y Cyfarwyddwr Diogelwch, Sicrwydd a Chadernid yw ceidwad y polisi hwn.

Simon Marr  
Cyfarwyddwr Diogelwch, Sicrwydd a Chadernid  
Lefel 9 BBC Birmingham  
The Mailbox, 102-107 Wharfside Street  
Birmingham B1 1RF  
Symudol: +44 (0) 791267 1122  
E-bost: [simon.marr@bbc.co.uk](mailto:simon.marr@bbc.co.uk)

Balram Veliath  
Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd  
NBH 04 A  
Portland Place,  
Llundain W1A1AA  
Symudol: +44 (0) 7768 066924  
E-bost: [balram.veliath@bbc.co.uk](mailto:balram.veliath@bbc.co.uk)

Neu, os ydych yn credu bod aelod o Bwyllgor Gweithredol y BBC, neu'r Tîm Gweithredol yn ymwneud â'r mater rydych yn dymuno rhoi gwybod amdano, efallai y byddai'n well gennych gyfeirio'r mater at Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol y BBC yn:

[BBC-Non-Executive@expolink.co.uk](mailto:BBC-Non-Executive@expolink.co.uk)

Gan fod hwn yn gyfeiriad e-bost allanol, dylech nodi'n glir bod eich pryder yn ymwneud â'r BBC.

Os ydych am godi'r mater yn gyfrinachol, cyflwynir camau ymarferol er mwyn diogelu eich manylion personol. Cysylltir â chi yn gyfrinachol ac ni fydd eich manylion adnabod yn cael eu datgelu heb eich caniatâd, oni bai fod hynny'n ofynnol dan y gyfraith.

### Cam 3: Cysylltiadau Allanol

Nod y polisi hwn yw darparu mecanwaith mewnol ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad anonest honedig yn y gweithle ac ymchwilio iddo. Fel arfer ni fydd angen i chi hysbysu rhywun allanol. Fodd bynnag, os yw natur eich pryder yn golygu na allwch ei drafod gydag unrhyw un o'r unigolion sy'n cael eu hargymell, neu os ydych wedi dilyn y sianeli mewnol a restrir yng 'Ngham 1' a 'Cham 2' a bod gennych bryder o hyd, cysylltwch â'r sefydliad(au) allanol isod:

#### Expolink

Ffôn (Y Deyrnas Unedig): 0800 374199

Gweld [rhifau cyswllt rhyngwladol Expolink](#)

Gallwch ffonio Expolink yn rhad ac am ddim. Ni fydd rhaid i chi roi eich enw a bydd pob gwybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae'n sefydliad cwbl annibynnol ac mae ganddo staff diduedd sydd wedi cael eu hyfforddi i ymdrin â galwadau sy'n ymwneud â chamymddygiad. Gallwch fod yn ffyddiog wrth ffonio na fydd eich galwad yn cael ei holrhain na'i recordio.

Bydd Expolink yn anfon pob gwybodaeth at Gyfarwyddwr Diogelwch, Sicrwydd a Chadernid a Chyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd y BBC, ac eithrio eich enw os ydych yn dweud eich bod am fod yn ddienw.

Er mwyn cyflwyno adroddiad ar y we drwy Expolink, cliciwch ar y ddolen isod:

<http://www.expolink.co.uk/whistleblowing/for-employees/>

**Sylwer:** Pan fyddwch yn ysgrifennu eich adroddiad, dylech roi 'BBC' fel teitl lle gofynnir am god y cwmni yn rhan uchaf yr adroddiad ei hun.

#### Public Concern at Work

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddilyn Polisi Chwythu Chwiban y BBC ai peidio, neu os oes arnoch eisiau rhagor o gyngor annibynnol, gallwch gysylltu â *Public Concern at Work*. Mae'r elusen hon, sy'n gwbl annibynnol ar y BBC, yn arbenigo mewn darparu cyngor cyfreithiol di-dâl a chyfrinachol ynglŷn â sut i fynegi pryder ynghylch camymddygiad difrifol yn y gwaith. Gall *Public Concern at Work* hefyd eich helpu i benderfynu a yw'r sefyllfa rydych yn bryderus amdani yn un y dylid ei dwyn i sylw corff allanol arall, er enghraifft yr Heddlu.

Ffôn: +44 (0)20 7404 6609

Ffacs: +44 (0)20 7404 6576

E-bost:

[whistle@pcaw.org.uk](mailto:whistle@pcaw.org.uk)

#### Sut bydd y BBC yn ymdrin â'ch pryder

Ar ôl i chi gyflwyno adroddiad ynglŷn â'ch pryder, bydd y BBC yn gwneud asesiad ac yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd. Os gellir ymdrin â'ch pryder yn well dan bolisiau eraill y BBC (e.e. Polisiau Cwynion ac Aflonyddu) byddwch yn cael cefnogaeth a chynghor ynglŷn â beth i'w wneud nesaf.

Os gellir ymdrin â'ch pryder yn unol â'r Polisi Chwythu'r Chwiban bydd y BBC wedyn yn dechrau ymchwilio i'r pryder a fynegwyd gennych. Dyma pryd y bydd y BBC yn:

- Dweud wrthy'ch pwy sy'n ymdrin â'r mater a sut y gallwch gysylltu ag ef neu hi;
- Dweud a oes modd i chi ofyn am ragor o gymorth;
- Rhoi rhyw syniad am faint y bydd yr ymchwiliad yn para; a
- Rhoi cyngor ynglŷn â beth i'w wneud os bydd y sawl sy'n codi'r mater yn canfod ei fod dan anfantais ar unwaith neu'n ddiweddarach.

Er mai pwrpas y polisi hwn yw galluogi'r BBC i ymchwilio i achosion posibl o gamymddwyn a chymryd camau priodol i ymdrin â hynny, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael cymaint o adborth ag sy'n bosibl. Mae'n bosibl, fodd bynnag, na fyddwn yn gallu rhoi manylion penodol i chi am yr ymchwiliad na'r union gamau a fydd yn cael eu cymryd er mwyn datrys y mater mewn amgylchiadau lle gallai hynny effeithio ar ein dyletswydd i gadw gwybodaeth rhywun arall yn gyfrinachol. Dylech gadw unrhyw wybodaeth a roddir i chi am yr ymchwiliad yn gyfrinachol.

### **Amserlenni'r Ymchwiliad**

Mae'n debygol y bydd yr amserlenni ar gyfer ymchwilio i bryderon yn unol â'r polisi hwn yn amrywio, yn dibynnu ar natur a chymhlethdod yr achos. Fodd bynnag, mae'r BBC yn addo gweithredu o fewn y canllawiau hyn:

- Cydnabod derbyn pryder a fynegir yn unol â'r polisi hwn o fewn pum diwrnod gwaith;
- Blaenoriaethu a symud ymlaen â'r ymchwiliad yn briodol;
- Sicrhau bod y sawl sy'n mynegi pryder yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd (o leiaf bob mis) yn dibynnu ar ba mor hir y bydd yr ymchwiliad yn para.

### **Beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon â'r modd yr ymdriniwyd â'ch pryder**

Er na all y BBC warantu y bydd yn ymateb i bob mater yn union fel y byddech yn hoffi iddo wneud, bydd yn ymdrin â phob mater yn deg ac yn briodol. Os nad ydych yn fodlon ag ymateb y BBC, cofiwch y gallwch fynd at y lefelau a'r cyrff eraill y cyfeirir atynt yn y polisi hwn. Drwy ddilyn y camau yn y polisi hwn, byddwch yn ein helpu i wneud hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am Bolisi Chwythu'r Chwiban y BBC, cysylltwch â:

Simon Marr  
Y Cyfarwyddwr Diogelwch, Sicrwydd a Chadernid